



Adroddiad Blynyddol

y

Bwrdd Monitro Annibynnol

yng

Ngharchar ei Mawrhydi a Sefydliad Troseddwyr Ifancy Parc

ar gyfer Blwyddyn adrodd

(1 Mawrth 2017 i 28 Chwefror 2018)

Cyhoeddwyd

Medi 2018



Monitro tegwch a pharch i bobl yn y ddalfa

CYNNWYS

Adrannau Rhagarweiniol

Adran	Pwnc	Tudalen
1	Rôl Statudol	2
2	Crynodeb Gweithredol	3
3	Disgrifiad o'r Sefydliad	5

Adrannau Tystiolaeth

4	Diogelwch	6
5	Cydraddoldeb a Thegwch	7
6	Uned Neilltuo / Gofalu a Gwahanu	8
7	Llety (yn cynnwys cyfathrebu)ac Uned Pobl Ifanc	9
8	Gofal Iechyd (yn cynnwys iechyd meddwl a gofal cymdeithasol)	12
9	Addysg a Gweithgaredd Pwrpasol arall	14
10	Gwaith, Hyfforddiant Galwedigaethol a Chyflogaeth	16
11	Paratoi i Ailsefydlu	18

	Gwaith y Bwrdd Monitro Annibynnol	19
	Ceisiadau i'r Bwrdd Monitro Annibynnol	21

Adrannau 1 - 3

1 RÔL STATUDOL Y BWRDD MONITRO ANNIBYNNOL

Mae Deddf Carchardai 1952 yn ei gwneud yn ofynnol bod pob carchar yn cael ei fonitro gan fwrdd annibynnol a benodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o blith aelodau o'r gymuned y mae'r carchar neu'r ganolfan ynnddi.

Mae gan y Bwrdd y cyfrifoldeb penodol i

- (1) fodloni ei hun ynghylch triniaeth drugarog a chyfiawn y rhai a gedwir yn y ddalfa o fewn ei garchar ac ystod a digonolrwydd y rhaglenni sy'n eu paratoi ar gyfer eu rhyddhau
- (2) rhoi gwybod yn brydlon i'r Ysgrifennydd Gwladol neu unrhyw swyddog y mae wedi dirprwyo awdurdod iddo fel y barno'n briodol, am unrhyw bryder y mae ganddo.
- (3) **adrodd yn flynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol ar cystal y mae'r carchar wedi cwrdd â'r safonau a'r gofynion a roddwyd arno a pha effaith y mae'r rhain yn ei chael ar y rhai yn y ddalfa**

Fel bod modd i'r Bwrdd ymgymryd â'i ddyletswyddau'n effeithiol, mae gan ei aelodau hawl mynediad at bob carcharor a phob rhan o'r carchar a hefyd at gofnodion y carchar.

2 CRYNODEB GWEITHREDOL

Prif ddyfrniadau

Cred y Bwrdd bod y adroddiad hwn yn cadarnhau ein barn y caiff carcharorion yng Ngharchar ei Mawrhydi a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc eu trin yn deg.

Mae popeth y mae'r Bwrdd yn ei weld yn cadarnhau y caiff carcharorion eu trin yn drugarog.

Gall y Bwrdd gadarnhau'r ystod eang o weithgaredd sy'n galluogi carcharorion i baratoi'n dda ar gyfer eu rhyddhau.

Yn yr adroddiad hwn cyflwynir ganfyddiadau'r Bwrdd Monitro Annibynnol yng Ngharchar ei Mawrhydi a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc o Fawrth 2017 i Chwefror 2018. Seilir canfyddiadau'r Bwrdd ar arsylwi; craffu cofnodion a data; mynd i rai gyfarfodydd y carchar; cyfarfodydd gyda charcharorion, staff a rheolwyr a cheisiadau carcharorion.

Mae'r Bwrdd yn bryderus fod lefel y digwyddiadau treisgar a chamddefnyddio sylweddau yn y carchar yn dal i fod yn uchel. Fel gyda charchardai eraill, mae faint o gyffuriau ac, yn benodol, gyfansoddion 'sbeis' a ddygir i'r carchar i'w weld yn her barhaol ac yn un sy'n anodd ei thrin.

Mae lefelau trais yn parhau'n arwyddocaol, gyda chanran anghymesur yn dal i ddigwydd yn yr Uned Pobl Ifanc. Un ffactor sy'n gwaethygu hyn yw'r bobl ifanc heriol sy'n newid yn gyson, llawer yn dod o ymhellach i ffwrdd na'r dalgylch lleol.

Mae gan y tîm Diogelwch Cymunedol rôl bwysig mewn rhoi sylw i ostwng trais ac mae cyflwyno'r Uned Credwch yn gynllun llawn dychymyg.

Mae'r galw am wasanaethau iechyd meddwl yn parhau'n uchel, gyda ffigurau hunan-niweidio yn parhau'n arwyddocaol iawn. Mae'r Bwrdd yn rhannu pryderon y carchar o ran y meysydd diffygiol sydd yno, yn enwedig felly, ddarpariaeth gofal seiciatryddol eilaidd i'r rhai dros 65, oedran y mae nifer gynyddol ohono yn y Parc.

Mae'r Bwrdd wedi bod yn falch o weld rhagor o gynlluniau newydd Gofal Iechyd, yn enwedig felly gyflwyno Llwybr Iechyd Meddwl Newydd sydd â'r nod o flaenoriaethu cyfeiriadau a gwella'r defnydd a wneir o ddarparu cefnogaeth, taflen wrth gyrraedd i gynorthwyo i reoli gofal iechyd a phennu disgwyliadau a Newyddlen Gofal Iechyd rheolaidd.

Mae'r Bwrdd yn falch o gael medru adrodd y bu gwelliant yn narpariaeth y gwaith a gweithgaredd pwrpasol eleni gyda thros 80% o'r carcharorion yn ymgymryd â gweithgaredd. Mae'r Bwrdd wedi nodi bod mwy o leoedd gwag ar gael yn rheolaidd nag a gaiff eu llenwi, gan gynnig digon o gyfleoedd i garcharorion sy'n fodlon ac abl.

Mae'r Bwrdd yn cydnabod llwyddiant Adain y Coleg Addysg Bellach a Dysgu o Bell sydd bellach wedi'i sefydlu. Mae'n dda gweld fod Tŷ Dysgu, yr adain addysg a diwydiant a sefydlwyd yn Uned Coed ar gyfer carcharorion bregus, bellach wedi'i chwblhau'n llwyr a'i bod yn adlewyrchu'r ystod eang o ddarpariaeth addysgiadol i'r grŵp hwn o garcharorion a gynigir yng ngweddill y carchar.

Mae'r Bwrdd yn fodlon y rhoddir i bob carcharor becyn cymorth pwrpasol i'w cynorthwyo i ailymdoddi i'r gymuned. Fodd bynnag, yn yr adroddiad Arolwg diwethaf gwnaed argymhelliad i wella'r gwaith dilyn i fyny ar brofiad gwaith carcharorion wedi

iddynt gael eu rhyddhau trwy'r system Carchar ei Mawrhydi a'r Gwasanaeth Prawf a byddai'r Bwrdd yn cymeradwyo'r gwaith o ddatblygu hon.

Nid oes gan y Bwrdd unrhyw amheuaeth fod rheoli diogelwch yn ei holl agweddau yn y sefydliad mawr hwn gyda'i boblogaeth amrywiol ac, yn aml, heriol yn rhywbeth sy'n parhau i wynebu'r Cyfarwyddwr a'r Rheolwyr. Mae'r Bwrdd yn falch o allu blaenoriaethu gwaith monitro'r Uned Neilltuo a hefyd bod yn rhan o 'r cynlluniau newydd fel yr Uned Credwch.

Mae amgylchedd y carchar yn fodern a braf ac mae gosodiad llawn dychymyg yr eiddo a'r tir helaeth wedi arwain at Garchar Ei Mawrhydi y Parc yn ennill tlws mawreddog Windlesham eleni. Roedd hyn yn hwb mawr i'r staff a'r garddwyr-garcharorion.

At ei gilydd, mae glanhawyr yr adeiniau'n glanhau i safon dda. Fodd bynnag, mae aelodau'r Bwrdd weithiau'n siomedig i weld nad yw'r manau ymarfer mewnol, lle mae carcharorion yn taflu sbwriel trwy'u ffenestri, yn cael yr un sylw a gallant barhau i fod yn flêr am sawl diwrnod.

Mae'r her o ran colli eiddo carcharorion yn parhau'n ffynhonnell reolaidd o geisiadau i'r Bwrdd. Rydym wedi gweld os caiff carcharorion eu symud i leoliad arall yn y carchar a'u bod yn methu mynd â'u heiddo efo nhw, yr aiff hwn 'ar goll' neu caiff ei ddwyn gan garcharorion eraill. Gall gwaith clirio celloedd gael ei ohirio oherwydd nad oes staff ar gael. Mae aelodau'r Bwrdd yn ymwybodol o ymdrechion y mae staff adeiniau'n eu gwneud i roi sylw i'r broblem hon, gyda rhai gwelliannau cadarnhaol. ond mae peth ffordd i fynd eto.

Yn gysylltiedig â hyn mae'r her barhaus o garcharorion yn honni na wyddant pwy yw eu Swyddog Personol. Mae aelodau'r Bwrdd wedi nodi y gall newidiadau mewn staff a salwch ymhlith staff gyfrannu at hyn ac weithiau mae swyddogion personol yn methu dilyn mater ar ran carcharorion yn effeithiol. Ein gobaith yw y bydd modd cyflwyno system y Gweithiwr Allweddol Rheoli Troseddwr yn y Ddalfa, a gaiff ei hariannu ar hyn o bryd a'i chyflwyno'n genedlaethol yn sefydliadau y sector cyhoeddus, i'r sectorau dan gontract yn fuan ac y bydd yn cryfhau ac yn gwella'r berthynas bersonol yn y carchar.

Yr argraff a gaiff y Bwrdd at ei gilydd yw bod y Parc yn parhau i gael ei reoli'n dda, bod diogelwch carcharorion o'r pwys mwyaf a bod ystod y gweithgareddau pwrpasol yn tyfu ac yn ehangu.

3 DISGRIFIAD O'R SEFYDLIAD

Sefydliad lleol categori B a Sefydliad Troseddwy'r Ifanc yw Carchar Ei Mawrhydi a Sefydliad Troseddwy'r Ifanc y Parc gydag Uned Pobl Ifanc a'r elfennau isod y cytunwyd arnynt:-

- i) Llety Arferol Ardystiedig sylfaenol ac ynddo 1559 o oedolion ac oedolion ifainc o'r 1^{af} o Fawrth 2017;
- ii) ar ddiwedd y cyfnod adrodd hwn, Chwefror 2018, mae capasiti gweithredol ar hyn o bryd i 1803, yn cynnwys 64 o bersonau ifainc.

Agorodd Carchar Ei Mawrhydi a Sefydliad Troseddwy'r Ifanc y Parc ar yr 17^{eg} o Dachwedd 1997, a hwn yw'r unig garchar preifat yng Nghymru. Fe'i rheolir gan Wasanaethau Cyfiawnder G4S ar ran Carchar Ei Mawrhydi a'r Gwasanaeth Prawf. Caiff llawer o staff y carchar eu recriwtio o'r ardal leol. Mae'r carchar ar gyrion Pen-y-Bont ar Ogwr ond mae modd cael ato'n hawdd ar y ffordd a'r rheilffordd.

Fel gyda'r holl sefydliadau dan gontract, mae gan Carchar Ei Mawrhydi a Sefydliad Troseddwy'r Ifanc y Parc Reolwr. Mae'r Rheolwr yn gofalu am y contract 25 mlynedd rhwng y Gwasanaeth Carchardai a G4S, ac mae'n uniongyrchol gyfrifol i'r Cyfarwyddwr Rheoli Troseddwy'r (Cymru).

Mae'r Bloc newydd, Coed, a agorwyd yn Ionawr 2015 ar gyfer carcharorion bregus, wedi bod yn gyfan gwbl weithredol ers dwy flynedd. Mae lle i 387 o garcharorion yn y bloc ond capasiti gweithredol i 345 sydd yno.

Yr uned Pobl Ifanc yn y Parc yw'r unig uned o'i math yng Nghymru. Mae'n dal hyd at 60 o fechgyn dan 18 oed mewn dwy adain, gan gadw pobl ifanc sydd ar rimand ac sydd wedi'u dedfrydu.

Darperir Gofal Iechyd gan Wasanaethau Iechyd G4S.

Darperir addysg gan Garchar Ei Mawrhydi / Sefydliad Troseddwy'r Ifanc y Parc, G4S

Darperir Gwasanaethau Llyfrgell gan Greenwich Leisure Limited.

Mae Gwasanaethau Ailsefydlu o ran llety, cyflogaeth a chefnogaeth wedi'u contractio i Working Links. Oherwydd cyfansoddiad cymhleth y boblogaeth, mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Gyrfaoedd Cymru hefyd yn rhan o'r gwaith darparu Gwasanaethau Ailsefydlu.

Barnados sydd bellach yn gofalu am y Dderbynfa Ymelwyr.

Mae gan y carchar gysylltiadau sydd wedi hen ennill eu plwyf gyda nifer o sefydliadau a chwmnïau sy'n darparu cyrsiau hyfforddi a chyfleoedd cyflogaeth.

4 DIOLGELWCH

Nid oes amheuaeth gan y Bwrdd bod rheoli bob elfen o ddiogelwch yn y Carchar yn un o o'r heriau allweddol sy'n wynebu'r Cyfarwyddwr a'r Rheolwyr a rhoddant flaenoriaeth uchel a pharhaus iddo. Fel gyda charchardai eraill, mae faint o gyffuriau ac, yn benodol, cyfansoddion 'sbeis' a ddygir i'r carchar i'w weld yn her barhaol ac yn un sy'n anodd ei thrin.

Caiff y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf o ran yr ymdrechion cyson a wneir i fireinio neu ystyried cynlluniau newydd trwy adroddiadau gan y Cyfarwyddwr i gyfarfodydd Bwrdd misol y Bwrdd Monitro Annibynnol ac wrth i aelod o'r Bwrdd fynd yn rheolaidd i gyfarfodydd Carchariad Mwy Diogel.

Caiff nifer y digwyddiadau hunan-niweidio eu dadansoddi'n rheolaidd a'u cydnabod yn y ffigurau misol bod dros 50% o'r rhain yn digwydd i naw neu ddeg o garcharorion sydd, yn aml, ag anghenion cymhleth iawn. Mae strategaeth bellach yn ei lle i sicrhau bod gwaith y Cydlynnydd Achosion Cymhleth yn canolbwyntio ar y grŵp hwn yn benodol er mwyn sicrhau y caiff yr holl ymyraethau eu cydlynu'n dda. Mae Gweithdrefnau'r Gwaith Tîm, Asesu a Gofal yn y Ddalfa (ACCT) yn cynnal y dadansoddiad hwn a chaiff eu defnydd ei fonitro a'i oruchwylio gan uwch-reolwyr.

Mae'r Bwrdd wedi adrodd yn flaenorol ar y gwasanaethau sydd yn eu lle i roi sylw i elfennau o ddiogelwch.

Daw'r tîm Gostwng Trais, sydd bellach wedi'i ailenwi'n Diogelwch Cymunedol, yn rhan o waith monitro a dadansoddi'r holl ddigwyddiadau, yn cynnwys ymladd, ymosod, bygythiadau ac arfau,

Mae achosion o ymladd ac ymosod yn tueddu, ar gyfartaledd, i fod yn uwch yn yr Uned Pobl Ifanc. Mae'r Bwrdd yn cydnabod y gall bod gan y bobl ifanc sy'n lletya yno'r lefel uchaf o ymddygiad troseddol a'u bod yn dod o ardal eang o'r wlad. Mae hyn yn arwain at natur anwadal eu hymddygiad a nifer y digwyddiadau.

Datblyga'r tîm Diogelwch Cymunedol ymyraethau uniongyrchol gyda'r drwgweithredwyr i ostwng yr ymddygiad hwn a thrais yn sgil hynny. Maent hefyd yn hyfforddi carcharorion i fentora eu cyd-garcharorion sydd mewn perygl o golli eu cymhellion a'r breiniau y maent wedi'u haeddu, a hynny oherwydd eu hymddygiad.

Mae'r Uned Carchariad Mwy Diogel yn parhau'n adain lle ceir, yn gyffredinol, amgylchedd ac awyrgylch mwy llonydd i'r rhai hynny gyda rhai o'r anghenion gofal mwyaf.

Mae'r Samariaid yn recriwtio, hyfforddi ac yn cefnogi tîm gweithredol o wrandawyr sy'n rhoi gwasanaeth gwerthfawr i garcharorion, ar y prif adeiniau preswyl ac yn Uned Coed. Bellach mae cynllun i Wrandawyr allu rhoi cefnogaeth i'r rhai hynny yn Uned Phoenix

pan ofynnir amdani. Dywed y Gwrandawyr hyn wrth aelodau'r Bwrdd am yr hyder a'r boddhad a gânt o ddarparu'r gwasanaeth hwn.

At ei gilydd, mae'r Bwrdd yn falch o adrodd fod y timau staff yn dangos agwedd broffesiynol a gwybodus iawn at ofalu am garchorion sy'n agored i niweidio eu hunain a materion iechyd meddwl eraill, a'u deall. Rhoddir gwybod i aelodau'r Bwrdd am y cynllunio achos a'r drafodaeth am y cyfryw garcharorion a chânt wahoddiad i ddod i'r trafodaethau hyn yn rheolaidd.

Bu dwy Farwolaeth yn y Ddalfa yn y flwyddyn adrodd ddiwethaf. Achosion naturiol oedd un; mae ymchwiliad yn parhau yng nghyswllt y llall. Nid oes cwêst wedi'i gynnal hyd yn hyn yn nghyswllt y naill farwolaeth na'r llall, ac mae hyn yn adlewyrchu'r oedi a geir nawr gyda chynnal y cwestau ac mae hyn yn bryder i'r Bwrdd gan ei fod yn cael effaith ar y teuluoedd a'r staff.

5 CYDRADDOLDEB A THEGWCH

Mae gan y Bwrdd berthynas dda gyda'r tîm Cydraddoldeb ac mae aelod o'r Bwrdd wedi gallu mynd i'r rhan fwyaf o gyfarfodydd a derbyn cofnodion. Gallwn, felly, adrodd fod cyfanswm o ddau ar bymtheg o gynrychiolwyr Cydraddoldeb wedi'u recriwtio, yn enwedig felly yn yr Adeiniau Lefel Uwch a'r adain Uned y Carcharorion Bregus. Mae yna fwriad i geisio cynyddu nifer y cynrychiolwyr Cydraddoldeb, yn enwedig felly ar yr Adain Ymsefydlu.

Mae'r Bwrdd yn ymwybodol o nifer o weithgareddau a luniwyd i wella cynhwysiad: Grŵp ffocws LGBT yn y prif sefydliad ac yn Uned y Carcharorion Bregus a grŵp cyfeirio ar gyfer carcharorion Trawsryweddol yn Uned y Carcharorion Bregus. Wrth ymdrin â cheisiadau gan y grŵp bychan hwn, mae aelodau'r Bwrdd wedi'u bodloni y caiff eu anghenion penodol ac arbennig eu cydnabod gan y staff a'u bod yn rhoi sylw iddynt.

Caiff y Gymraeg ei chydabod yn bwysig yn y sefydliad Cymreig hwn ac mae arwyddion dwyieithog yn amlwg trwy'r carchar cyfan. Rhoddir gwybod i ni fod oddeutu deg ar hugain o garcharorion Cymraeg eu hiaith wedi rhoi gwybod i'r carchar eu bod yn Gymry Cymraeg ac ar hyn o bryd mae bron i drigain o staff yn siaradwyr Cymraeg rhugl.

Mae'r tîm Caplaniaeth gweithredol yn parhau i dyfu, gyda chynrychiolwyr o'r ffydd Foslemaidd, Fwdiaidd, Rastafaraidd, Baganaid ac Iddewig un ai'n cael eu penodi neu fe'u ceisir, yn ogystal â'r holl brif enwadau Cristnogol.

Mae'r gwasanaethau a'r gefnogaeth a roddir i ymwelwyr wastad yn gwneud argraff ar aelodau'r Bwrdd acunwaith eto eleni, gall y Bwrdd adrodd fod staff y Ganolfan Ymwelwyr a'r manau ymweld yn rhoi profiad braf, defnyddiol a chroesawus i ymwelwyr.

Bellach, gweithwyr Barnrados sy'n gweithio yn y Ganolfan Ymwelwyr, lle gall ymwelwyr gofrestru cyn mynd i mewn i'r carchar. Mae'n gyfleuster modern, cyfforddus a hamddenol gyda chyfleusterau a gweithgareddau chwarae i blant, a hynny'r tu mewn i'r ganolfan a'r tu allan iddi a chabinetau y mae modd eu cloi ar gyfer eiddo ymwelwyr.

Mae tri man ymweld yn y Parc: Prif neuadd Ymweliadau, Neuadd Ymweliadau Pobl Ifainc a'r Neuadd Ymweliadau yn Uned Coed. Yn y brif neuadd mae ystafell i'r teulu a man arbennig i garchorion statws uwch. Mae mannau chwarae i blant yn y brif neuadd ac yn Neuadd Coed, gyda gwirfoddolwyr yn gweithio yno'n rheolaidd.

Mae darparu mannau arbennig i garchorion sydd wedi ennill yr hawl hwn ac i'w teuluoedd i'w weld i fod yn llwyddo'n dda, gyda chapasiti i fwrw ymlaen i gael mwy o fannau eistedd cyfforddus ac ystafell bwrpasol i deuluoedd. Ceir hefyd ymweliadau i Deuluoedd ddydd Mercher olaf y mis, y gall carchorion o bob adain, yn eu tro, edrych ymlaen atynt. Mae aelodau'r Bwrdd wedi gweld bod y rhain yn achlysuron gwyb i'r teulu, gyda digon o weithgareddau i'r plant a bwffe deniadol y mae'r carchorion yn ei ariannu.

6 NEILLTUO, GOFALU A GWAHANU

Yn y carchar mawr hwn mae Uned Phoenix, neu'r Uned Neilltuo, yn amgylchedd sydd wastad yn brysur. Mae ganddo grŵp staff pwrpasol sy'n aml yn gorfod ymdrin â digwyddiadau ac ymddygiad heriol ac mae'r Bwrdd yn eu cymeradwyo am eu goddefgarwch a'u natur broffesiynol.

Mae'r amgylchedd ffisegol, fel gweddill y carchar, yn ysgafn a modern a chaiff ei lanhau a'i gadw a'i gynnal yn dda.

Gyda throsiant rheolaidd o feddianwyr, cynhelir Byrddau Trefn Da o leiaf ddwywaith yr wythnos a bydd y Bwrdd yn blaenoriaethau'r rhain trwy sicrhau fod aelod ar gael i fynd iddynt ar bob achlysur bron.

Caiff y cyfarfodydd hyn eu cadeirio gan uwch-reolwr ac mae cynrychiolydd o iechyd gofal bob tro'n bresennol bron iawn. Fel arfer, bydd carcharor yn y cyfarfod, oni bai ei fod yn gwrthod, a bydd y cadeirydd wastad yn ceisio datblygu cynllun fydd yn galluogi'r carcharor i ddychwelyd i leoliad arferol. Gallai'r carcharor wrthsefyll symud allan o Phoenix, am amryfal resymau, a gall hyn olygu cyfnodau hwy yn yr Uned.

Yn y cyd-destun hwn, mae'r Bwrdd yn gwylio, â diddordeb mawr, ddatblygiad cynllun newydd a luniwyd i roi sylw i reoli dynion cymhleth a threisgar sy'n aml yn tarfu ar adeiniau preswyl ac yn diweddu wedi'u neilltuo, weithiau am gyfnodau sylweddol.

Mae un o'r adeiniau preswyl wedi'i hailgyflwyno fel Uned Credwch. Bwriad yr uned yw darparu cyfundrefn fwy strwythuredig a unigoledig a chynllun rheoli i ddynion ag

anghenion cymhleth. Yn seiliedig ar fwrw ymlaen trwy bedair Lefel gyda'r nod o ailymdoddi yn ôl i'r prif leoliad, mae Lefel 1 yn adlewyrchu cyfundrefn Phoenix, ond gyda chyflwyniad i ddisgwyliadau Credwch, a'r cyfle i fwrw ymlaen trwy barodrwydd yr unigolyn i ymgysylltu a chydymffurfio. Symuda Lefel 2 y newid tuag at addysg ac ymlacio gyda sesiynau unigol a grŵp, ac mewn llyfrau gwaith celloedd. Caiff y rhain eu llunio i annog dynion i ddatblygu strategaethau ymdopi amgen. Mae modd cael cinio yn y man bwyta. Mae Lefel 3 yn canolbwyntio ar ddatblygu cryfder, creu perthynas a nodau i'r dyfodol. Mae'n ofynnol i bob dyn gwneithau'r rhaglen Ymwybyddiaeth o Drais. Wedi cwblhau'r rhaglen, mae modd cyfeirio dynion at gyflogaeth addas. Yn y cam hwn gall dynion gymdeithasu a bwyta allan bob pryd bwyd. Er mwyn cyflawni Lefel 4, bydd y dynion eisoes wedi dangos awydd i newid neu wella eu hymddygiad. Byddant wedi dysgu ffyrddnewydd ac effeithiol i ymdrin â gwrthdaro ac anawsterau eraill a gellir neilltuo mentor iddynt am ragor o gefnogaeth os oes angen.

Mae'r datblygiad hwn wedi bod yn heriol hyd yn hyn ond bu hefyd lwyddiannau a bu adborth o'r prif adeiniau preswyl y bu awyrgych gwell unwaith y symud wyd rhai o'r dynion mwyaf heriol.

7 LLETY (YN CYNNWYS UNED POBL IFANC)

Caiff y blociau llety eu cynnal yn dda gyda rhaglen cynnal a chadw reolaidd a wasanaethir gan staff cynnal a chadw cymwys.

Yn gyffredinol, adain peintio'r carchar sy'n peintio'r holl adeiladau, a hynny dan oruchwyliaeth staff priodol. Mae'r lliwiau'n llachar gyda rhywfaint o waith celf cywrain mewn rhai coridorau wedi'u gwneud gan garcharorion sy'n dalentog ac artistig iawn.

Ar bob adain mae man gymdeithasu ar y llawr daear lle gall carcharorion eistedd yng nghwmni ei gilydd i fwyta ac i gymdeithasu os dymunant. Yn gyffredinol, mae aelodau'r Bwrdd wedi gweld staff a charcharorion yn cyd-dynnu'n dda yn ystod y cyfnodau gymdeithasu hyn. Gallai problemau godi weithiau adeg cloi i fyny ond, yn gyffredinol, mae gan y staff ddigon o brofiad a sgil i ymdopi â hyn.

Cedwir blociau llety yn dwt ac yn lân gyda charcharorion yn cael eu cyflogi i gwblhau'r holl dasghau glanhau ar yr adain ac yn y coridorau cyfagos.

Anaml iawn y gwelir mannau ymarfer ar gyfer Adeiniau A a B yn lân, a hynny oherwydd bod carcharorion yn taflu eu sbwriel allan trwy ffenestr eu cell. Yn aml iawn mae aelodau'r Bwrdd yn siomedig o weld y gall gymryd dyddiau i sbwriel gael ei glirio o'r mannau hyn.

Mae gan flociau llety A,B,C a D, a godwyd pan agorwyd y carchar yn 1997, gawodydd cyffredin sydd i'w cael ar bob llawr bob adain. Yn y rhain pen a thraed yn unig y

carcharorion sydd i'w gweld o'r landin, felly ystyria aelodau'r Bwrdd bod digon o breifatrwydd. Yn adeiniau T ac X, a godwyd yn fwy diweddar, ceir cawodydd yn y celloedd. Mae toiled ym mhob cell yn y carchar.

Mae gweithdrefn bob adain i'w gweld yn glir ar yr hysbysfyrddau ym mloc pob adain ac mae'r Bwrdd yn fodlon bod hon yn briodol ar gyfer pob bloc ac y caiff ei rheoli'n effeithiol.

Mae aelodau'r Bwrdd yn ymweld â'r ceginau'n rheolaidd ac yn fodlon fod safon gwaith paratoi pryddau yn dda ac y bodlonir yr holl anghenion deietegol.

Bydd carcharorion yn dewis eu pryddau'n electronig o fwydlen ar ddechrau'r wythnos. Ceir wastad ddewis o dri phryd nos, gydag opsiynau ychwanegol ar gael i garcharorion sy'n dilyn crefydd penodol.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn nid ydym wedi derbyn unrhyw geisiadau ynghylch pryddau'n hwyr neu ddim yn ddigon poeth. Fodd bynnag, yn ddiweddar mae nifer o garcharorion yn cwyno nad ydynt yn cael y pryddau y gwnaethont eu harchebu ac weithiau cwynant am ansawdd y bwyd a gynigir. Mae hwn yn fater newydd o ran ceisiadau i'r Bwrdd. Ymddengys fod y broblem wedi codi ers cyflwyno arlwywyr newydd. Mae staff a rheolwyr yn ymwybodol o hyn hefyd ac maent yn gweithio'n galed i ddatrys y broblem. Bydd y mater hwn yn cael ei fonitro'n agos gan y Bwrdd i sicrhau y caiff pob prydd archebir ei weini i'r person 'iawn'.

Fel ag mewn adroddiadau blaenorol, mae eiddo carcharorion yn parhau i greu problemau y deuir â nhw i'r Bwrdd Monitro Annibynnol. Rydym wedi gweld os caiff carcharorion eu symud i leoliad arall yn y carchar a'u bod yn methu mynd â'u heiddo efo nhw, yr aiff hwn 'ar goll' neu caiff ei ddwyn gan garcharorion eraill. Gall gwaith clirio celloedd gael ei ohirio oherwydd nad oes staff ar gael gan arwain at eiddo'n mynd ar goll ac, o bosib, at hawliadau am iawndal. Mae aelodau'r Bwrdd yn ymwybodol fod staff adeiniau'n ymdrechu i roi sylw i'r broblem hon ac mae rhai gwelliannau cadarnhaol. Pan fyddant yn gweithio yn eu lleoliad arferol mae gan y rhan fwyaf o'r staff wybodaeth weithiol dda o'r holl garcharorion y maent yn eu goruchwylio. Fodd bynnag, pan fydd gofyn iddynt weithio mewn lleoliad arall, ni fyddant yn gwybod llawer am amgylchiadau carcharorion ar yr adain honno.

Mae'r holl garcharorion yn medru cael at ffôn ar bob adain ac, ar yr amod bod ganddynt ddigon o greddydd ffôn, gallant ei ddefnyddio'n rheolaidd.

Mae siop y carchar yn parhau i fod yn boblogaidd gyda carcharorion. Mae ystod helaeth o nwyddau ar gael am brisiau cystadleuol. Mae catalogau ar gael i garcharorion archebu eitemau cydnabyddedig megis CDs ac eitemau tebyg eraill.

UNED POBL IFAINC (15 I 17 MLWYDD OED)

Yr uned Pobl Ifanc yn y Parc yw'r unig uned o'i math yng Nghymru. Mae'n dal hyd at 60 o fechgyn dan 18 oed mewn dwy adain lety gan gadw pobl ifanc sydd ar rimand ac sydd

wedi'u dedfrydu. Mae'r Unedau hyn yn hollol ar wahân i lety'r oedolion ac mae'r Bwrdd yn ymweld â'r uned o leiaf unwaith yr wythnos ac yn monitro bob agwedd o'i darpariaeth.

Cynhaliodd Prif Arolygwr Carchardai ei Mawrhydi arolwg dirybudd o'r Uned Pobl Ifainc yn Hydref 2017. Roedd yr arolwg dilynol yn dda gydag arolygwyr yn cael eu calonogi gan weithrediad effeithiol argymhellion blaenorol.

Caiff y grŵp staff ei recriwtio'n benodol ar gyfer y ddarpariaeth hon. Mae staff a rheolwyr yn bresenoldeb cryf ar yr adeiniau ac ar draws mannau gweithgareddau a gwêl aelodau'r Bwrdd fod y rhyngweithio rhwng y staff a'r bechgyn yn ofalgar, parchus ac effeithiol. Mae trefniadau rheoli ymddygiad, yn benodol ynghylch bwlio a chodi ofn, wedi'u hadolygu dros y flwyddyn ddiwethaf gyda mwy o bwyslais ar gymell a sancsiynau. Mae'r rhain wedi'u croesawu gan y bechgyn ac maent wedi cyfrannu at ostyngiad yn y nifer sy'n cau eu hunain ei ffwrdd. Bu hefyd ostyngiad bychan mewn achosion o ymladd ac ymosodiadau a gofnodir er bod lefelau trais yn parhau i fod yn uchel. Fodd bynnag, lefel isel yw'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau ac maent fel arfer yn arwydd i staff ymyrryd er mwyn lleihau'r perygl i'r sefyllfa waethygu.

Mae'r gwaith ymgynghori gyda'r bechgyn wedi gwella a'r Fforwm Cymunedol wedi dod yn Gyngor Myfyrwyr y mae nifer o fechgyn yn eistedd arno fel cynrychiolwyr etholedig eu cymheiriaid. Rhydd y cyfarfod misol hwn lais i'r hogiau, wrth iddynt rannu eu syniadau am sut y caiff yr uned ei rhedeg - mae'r broses ddwy ffordd hon yn fodd i'r bechgyn drosglwyddo gwybodaeth yn ôl i'r bechgyn eraill ac mae hefyd yn sianel i staff gael dylanwad cadarnhaol ar farn pobl ifanc.

Mewn cyfarfodydd mae staff yn gwrandao'n astud ar y pwyntiau a'r pryderon a godir a, lle bo'n bosib, yn addo gweithred ac amserlen benodol. Y pryder mwyaf o bell ffordd yw'r gŵyn ddiweddar ynghylch ansawdd y bwyd a faint a geir, a'r farn gyffredin yw fod safon y bwyd wedi gostwng yn sylweddol dros y misoedd diwethaf. Mae hyn yn ychwanegu at brofiad aelodau'r Bwrdd o'r mater hwn wrth fonitro pethau eraill o amgylch y carchar.

Mae'r bobl ifanc yn treulio llawer o amser y tu allan i'w celloedd ac mae'r ddarpariaeth addysg a gweithgareddau'n gwella trwy'r amser. Darperir ystod dda o weithgareddau pwrpasol a chydweithia swyddogion ac athrawon yn dda i sicrhau cefnogaeth i'r bechgyn gyda'u dysgu a'u cynnydd unigol.

Mae'r rhan fwyaf o'r bechgyn yn gallu dangos cynnydd mewn addysg a datblygu sgiliau defnyddiol a throsglwyddadwy. Yr hyn y mae'r Bwrdd yn ei weld yw fod y rhan fwyaf o'r bechgyn yn mwynhau eu dysgu ac yn cymryd rhan yn dda mewn gwersi gan ddangos brwdfrydedd a diddordeb. Gwelwyd rhai agweddau gofalgarg a chreadigol iawn yn y gwaith y bu i ni ei fonitro, gydag athrawon ymroddedig ac wedi'u hyfforddi'n dda. Mae'r ymddygiad mewn gwersi addysg yn dda'n gyffredinol a phan geir unrhyw darfu, rhoddir sylw iddo'n gyflym a rhagweithiol.

8 GOFAL IECHYD, IECHYD MEDDWL A GOFAL CYMDEITHASOL

Darperir gofal iechyd sylfaenol yn y Parc gan Wasanaethau Iechyd G4S gyda gofal eilaidd yn cael ei ddarparu gan yr ysbyty achosion llym lleol a gwasanaethau mewngymorth Iechyd Meddwl.

Ar hyn o bryd caiff ceisiadau am apwyntiadau eu gwneud trwy'r consolau CMS ar yr adeiniau. Mae'r carchar yn parhau i fonitro cyfraddau 'dim presenoldeb' ar draws pob gwasanaeth; meddygol, deintyddol, optegydd ac ati.

Rhoddwyd sylw i'r achosion hyn o 'dim presenoldeb' mewn sawl ffordd: mae staff hebrwng wedi'u symud i adain ger Gofal Iechyd i wneud trosglwyddiadau'n haws, mae datblygu rôl Eiriolwr Gofal Iechyd yr adain yn gwella cyfathrebu yng nghyswllt cadw apwyntiadau a, lle bo rhaid, sefydlwyd clinigau ychwanegol.

Mae'r Bwrdd yn falch o nodi y cafwyd mwy o lwyddiant yn recriwtio i'r tîm Gofal Iechyd eleni. Arweiniodd y defnydd a wnaed o staff asiantaeth yng nghanol y flwyddyn adrodd at rywfaint o gyfaddawdu yn y gwasanaeth ond mae cyflwyno'n ddiweddar gweithio fel tîm wedi arwain at wella morâl a bod yn fodd i ailsefydlu clinigau rheoli clefydau cronig. Aeth y gwasanaeth Meddygon Teulu i dendr ddwywaith eleni hefyd ond mae bellach yn sefydlog. Mae cyflwyno dau barafeddyg a system nyrs brysbennu wedi cyfrannu at effeithlonrwydd y gwasanaeth a gostyngiad yn yr amser aros i gael gweld meddyg.

Mae'r carchar yn parhau i roi sylw i anghenion nifer o'r carcharorion sydd â phroblemau iechyd meddwl a lansiwyd Llwybr Iechyd Meddwl yn Ionawr 2018, sydd â'r nod o flaenoriaethu cyfeiriadau a gwella'r defnydd a wneir o wrandawyr ac eiriolwyr gofal iechyd wrth gynnig cefnogaeth.

Mae'r Bwrdd yn rhannu pryderon y carchar ynghylch y diffyg parhaus mewn darpariaeth.

Ychydig o wasanaethau, yn enwedig gofal seiciatryddol eilaidd, sydd i'r rhai dros 65 oed gan nad oes darpariaeth am ymgynghorydd ar gyfer y grŵp oedran hwn.

Darperir gwasanaethau iechyd meddwl sylfaenol yn y carchar gan feddyg teulu a nyrsys iechyd meddwl. Darperir gofal eilaidd gan Mewngymorth gyda chytundeb lefel gwasanaeth ar gyfer oedolion (17 mlwydd 9 mis - 65 oed) â salwch meddyliol difrifol a pharhaus ond mae'r gyllideb yn seiliedig ar boblogaeth 2007. Oddeutu hanner y boblogaeth gyfredol yw hyn gyda thwf sylweddol yn nifer y carcharorion dros 65. Mae'r Bwrdd yn falch o glywed fod y mater ynghylch ariannu'n briodol ar gyfer maint ac anghenion y boblogaeth gyfredol wedi'i godi ar lefel uchel ac mae bellach ar y gofrestr 'mewn perygl' yn y Cynulliad.

Daw Seiciatrydd Oedolion Mewngymorth i'r carchar am sesiynau clinigol ond, unwaith eto, ni fu cynnydd yn y gwasanaeth sy'n adlewyrchu poblogaeth y carchar sy'n tyfu a'r newidiadau yn ei natur. Ni chaiff yr ysbyty lleol ei gomisiynu i roi gwasanaeth seiciatryddol i'r Parc felly nid oes modd i'r rhai dros 65 gael gofal eilaidd. Mae

Troseddwyr Ifainc yn gallu defnyddio Gwasanaeth Triniaeth ac Ymgynghoriaeth Fforensig i Laslanciau (FACTS) gyda Seiciatrydd Ymgynghorol a Nyrs Pediatrig Ardystiedig yn dod i'r carchar.

Oherwydd natur y contract nid yw rhai gwasanaethau a gâi eu cynnwys dan iechyd meddwl cymunedol, megis anhwylder personoliaeth a dementia yn cael eu cynnwys dan Mewngymorth ar hyn o bryd.

Yn ystod y flwyddyn adrodd hon bu gostyngiad yn nifer y cwynion i Ofal Iechyd, yn rhannol oherwydd penodi Swyddog Cyswllt Cleifion sy'n gyfrifol am yr Eiriolwyr Gofal Iechyd ar bob adain ac sydd bellach yn adnabyddus iawn i lawer o garcharorion.

Mae'r tîm gofal iechyd hefyd wedi cyflwyno taflen newydd i garcharorion pan fyddant yn cyrraedd i'w cynorthwyo i ymdopi â gofal iechyd a phennu disgwyliadau a Newyddlen Gofal Iechyd rheolaidd. Mae gwaith gyda charchardai lleol eraill ar bolisi pennu ar y cyd yn mynd rhagddo.

Mae'r Bwrdd yn falch o wybod y gallai carcharorion bellach gael adolygiad allanol a ddarperir gan Garchar Ei Mawrhydi y Berwyn ar gyfer cwynion gofal iechyd. Un carcharor yn unig sydd wedi defnyddio hwn ac mae ef bellach yn Eiriolwr Gofal Iechyd.

9 ADDYSG A DYSGU

Darperir gwasanaethau addysg yn y Parc gan G4S.

Pan fyddant yn cyrraedd, gofynnir i garcharorion gwblhau Asesiad Sgiliau Sylfaenol mewn Llythrennedd a Rhifedd. Trwy'r broses hon mae'r Bwrdd yn fodlon bod modd asesu pob carcharor ar gyfer gwahanol ofynion Llythrennedd a Rhifedd yr amrywiol gyrsiau a gweithgareddau gwaith.

Mae'r Parc yn parhau i ymdrechu i godi cyfranogiad a chyrhaeddiad trwy osod safonau uchel a darparu modelau rôl da. Cyflawnir hyn trwy gyfleoedd dysgu ansawdd uchel sy'n berthnasol i anghenion, cyflogaeth a chyfleoedd hyfforddi ac addysgol pan fydd carcharorion yn cael eu rhyddhau.

Mae'r Bwrdd hefyd yn fodlon fod dau argymhelliad arolwg Estyn yn Ionawr 2016 wedi'u cwblhau. Y rhain oedd bod

1. Yr athro/athrawes yn cynnal ei asesiad diagnostig ei hun er mwyn ategu'r hyn a ddywedwyd yn y cam asesu cychwynnol.
2. Targedau CAMPUS (cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol, synhwyrol) wedi'u cynnwys yng nghynlluniau dysgu unigol carcharorion.

Y Bwrdd yn cydnabod llwyddiant adain y Coleg Addysg Bellach a Dysgu o Bell sydd bellach wedi'i sefydlu. Datblygiad diweddar arall oedd Rhaglen Lleoliadau Coleg i fyfyrwyr TAR. Gwnaed cysylltiadau gweithio cryf gydag Ymddiriedolaeth Addysg Carcharorion, y Brifysgol Agored a nifer o brifysgolion a cholegau ledled Cymru.

Mae'r Bwrdd yn gweld ac yn credu fod y Parc wedi creu amgylchedd dysgu hyblyg a chefnogol ac mae'n cymeradwyo'n benodol yr Adran Cyfryngau a Chelfyddydau Creadigol, y mae ei myfyrwyr yn parhau i dderbyn gwobrau a chydabyddiaeth gan nifer o sefydliadau. Gall aelodau'r Bwrdd gadarnhau'r balchder a'r boddhad a gaiff carcharorion o'r cyflawniadau hyn. Mae'r Parc yn parhau i fod yn arbennig o lwyddiannus yng Ngwobrau Koestler. Mae pob grŵp oedran o 18 oed i 60+ oed wedi cael cyfanswm o bron i drigain gwobr mewn meysydd yn amrywio o arlunio, cerflunio a serameg i gerddoriaeth, barddaniaeth a chofnodi profiadau bywyd. Cafwyd pedair gwobr ar lefel aur a phlatinwm.

Mae disgwyl i'r holl ddysgwyr sy'n mynd am y pynciau Celfyddydau Gweledol weithio tuag at dystysgrif neu gymhwyster ar lefel sy'n briodol i'w gallu a hyd eu dedfryd, a chyflawni hyn. Mae Dylunio Graffeg wedi'i gynnig yn ddiweddar.

Mae'n dda gweld fod Tŷ Dysgu, yr adain addysg a diwydiant a sefydlwyd yn Uned Coed ar gyfer carcharorion bregus, bellach wedi'i gwblhau'n llwyr a'i fod yn adlewyrchu'r un ystod o ddarpariaeth addysgol i'r grŵp hwn o garcharorion ac a gynigir i weddill y carchar.

Cynigir ystod amrywiol ac eang o hyfforddiant galwedigaethol pur yn Hwb y prif ddiwydiannau, Tŷ Dysgu a'r Unedau Preswyl o amgylch y carchar, ynghyd â dysgu seiliedig ar waith a chymwysterau ym mhob un o'r Gweithdai Diwydiannol, Arwyddion ac Argraffu, Golchi Dillad, Lle Bwyta'r staff, y Gegin Hyfforddi a'r Ganolfan Ailgylchu.

Trwy hyn, mae'r Bwrdd yn cydnabod fod carcharorion yn cael cymwysterau a gaiff eu cydnabod gan y diwydiant a'u bod yn profi'r ethos o weithio, fel unigolyn ac yn rhan o dîm.

Mae amrywiaeth eang o gyfleoedd i garcharorion gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol ac mae aelodau'r Bwrdd yn gweld fod y rhain yn boblogaidd. Mae'r Adran Addysg Gorfforol yn gweithio'n agos gyda chyrrff llywodraethu cenedlaethol amrywiaeth o chwaraeon i ddarparu cymwysterau hyfforddi.

Mae'r adran hefyd yn gweithio gydag amrywiaeth o glybiau cymunedol i hyrwyddo'r rhaglen cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn chwaraeon. Mae'r Bwrdd yn hapus i gymeradwyo pedwar aelod o staff yr Adran Addysg Gorfforol sydd wedi cael clod mawr gan Ymddiriedolaeth Baker am eu hymroddiad a'u crafter sydd wedi bod yn fodd iddynt fynd o gwmpas eu gwaith mewn ffordd ystyrlon a dealladwy i'r carcharion

Gall y Bwrdd gadarnhau, o wybodaeth a roddwyd, bod y Parc yn mynd y tu draw i'w dargedau cytundebol mewn Sgiliau Sylfaenol a Sgiliau Gwaith Allweddol.

10 GWAITH, HYFFORDDIANT GALWEDIGAETHOL A CHYFLOGAETH

Mae'r Bwrdd yn falch iawn o allu adrodd ar y gwelliant mewn darparu gweithgaredd a chyflogaeth pwrpasol eleni,

Ar ddiwedd y flwyddyn adrodd hon mae'r gwaith monitro wedi nodi mai 1375 o ddynion, allan o boblogaeth o 1710, a gymerodd ran mewn gweithgaredd pwrpasol, sef cyfradd gweithgaredd o 80.4% o'i chymharu â chyfartaledd o 77% yr adroddwyd arno y llynedd.

Pan fyddant yn cyrraedd y carchar, bydd yr holl garcharorion newydd yn cael asesiad ac yn mynd ar raglen ymsefydlu, o le y cânt eu neilltuo i waith neu addysg, gan ddibynnu ar eu hoedran a'u ffitrwydd meddygol. Byddir yn pennu rolau y bydd y carchar o bosib yn gymwys ar eu cyfer unwaith y byddir wedi asesu eu sgïlrau llythrennedd a rhifedd a chanfod beth yw'r perygl i'w hiechyd. Mae gan bob swydd yn y carchar lefelau gofynnol a nodwyd o'r ddau faen prawf. Pan gafodd y rhaglen llythrennedd, a gaiff ei chynnal gan Ymddiriedolaeth Shannon, ei monitro ddiwethaf roedd 66 o garcharorion arni. Rhaglen ar gyfer oedolion sydd, i bob pwrpas, yn anllythrennog yw hon ac ni allant ymgymryd â gwaith am gyflog hyd oni byddant yn cyrraedd y lefel ofynnol ar y rhaglen hon .

Ar hyn o bryd, dosberthir carcharorion sy'n mynd trwy'r broses asesu fel anweithgar; fodd bynnag, mae rheolwyr yn ailystyried y dosbarthiad hwn gan nad yw'n adlewyrchu statws y carcharor newydd yn gywir.

Mae cyfanswm o 276 o garcharorin ar y brif adain a 118 yn yr Uned Carcharorion Bregus sydd mewn addysg lle mae taliadau'n amrywio o £1.06 i £2.50 y sesiwn.

Mae'r rhai sydd â gwaith wedi'u lleoli mewn gweithdai, yn gweithio ar yr adeiniau ac mewn gweithgareddau ledled y carchar. Gyda'i gilydd mae 57 gwahanol rôl gyda chyflogau'n amrywio o £0.40 i £5.90 y sesiwn.

Mae 231 o garcharorion yn gweithio mewn diwydiannau. Yn aml cysylltir y gwaith mewn diwydiannau â hyfforddiant galwedigaethol: mae deg gwahanol faes sy'n darparu cyfleuster i gyflawni NVQs ar wahanol lefelau.

Mae rhai o'r gweithdai'n gweithio mewn amgylchedd masnachol. Er enghraifft, mae'r Siop Dylunio ac Argraffu'n rhoi gwasanaeth i gwsmeriaid allanol, mae'r gweithdy cyfod yn yr Uned Carcharorion Bregus yn cynhyrchu larymau ar sail contract a gwneir strapiau pacio dan gontract. Yn anffodus, nid oes gan y Sied Fwyd y contract mwyach i gyflenwi'r gwasanaeth 'Pryd ar Glud' lleol.

Rhoddir gwybod am swyddi gwag trwy'r CMS mewnol a chaiff carcharorion eu hasesu ar sail eu hanes. O gofio bod mwy o leoedd gwag ar gael yn rheolaidd nag a gaiff eu llenwi (83 swydd wag pan welwyd hyn y tro diwethaf) ymddengys fod digon o gyfleoedd i garcharorion sy'n fodlon ac abl.

Mae mymryn dros 10% o geisiadau i'r Bwrdd Monitro Panel wedi ymwneud â materion cyflogaeth ac addysg. Materion yn ymwneud â chosbau a roddwyd yn sgil rhyw gamymddwyn (e.e. methu prawf cyffuriau gorfodol) yw'r mwyafrif llethol o'r rhain. Gall hyn arwain at ailddosbarthu statws neu asesu diogelwch a all gael effaith negyddol ar osod gweithgaredd pwrpasol.

Mae'r Bwrdd yn deall nad oes data dibynadwy ar gael ar effaith y profiad o fod mewn carchar ar gyflogaeth unwaith y caiff carcharor ei ryddhau. Mae gan rai o'r hyfforddwyr gysylltiadau â chyflogwyr lleol ac yn anecdotaidd efallai bod yno rai carcharorion sy'n cael cymorth i gael cyflogaeth yn sgil eu hyfforddiant yn y Parc. Fodd bynnag, nid oes modd gwneud sylwadau cyffredinol o gofio nifer fawr y ffactorau sy'n cael effaith ar garcharorion wedi iddynt gael eu rhyddhau. Yn adroddiad Arolwg 2016 gwnaed argymhelliad i wella'r gwaith dilyn i fyny ar brofiad gwaith carcharorion wedi iddynt gael eu rhyddhau trwy'r system Carchar ei Mawrhydi a'r Gwasanaeth Prawf a byddai'r Bwrdd yn cymeradwyo hyn.

At ei gilydd, mae'r Bwrdd o'r farn fod lefel ac ystod y gyflogaeth a'r gweithgaredd pwrpasol a gynigir o safon uchel ac mae'n cynnig cyfleoedd gwirioneddol i garcharorion ddatblygu eu sgiliau ac ychwanegu atynt.

11 PARATOI I AILSEFYDLU

Mae troseddwr yn y Parc yn derbyn gwasanaethau ailsefydlu 'Trwy'r Giât'. Darperir y gwasanaethau hyn gan Gwmni Ailsefydlu Cymunedol Cymru a fe sicrheir bod y rhain yn dechrau o leiaf ddeuddeng wythnos cyn i'r carcharorion gael eu rhyddhau.

Mae'r Bwrdd yn fodlon y rhoddir i bob carcharor becyn cymorth pwrpasol i'w gynorthwyo i ailymdoddi i'r gymuned.

Mae'r cymorth hwn yn eu cynorthwyo gyda thŷ, arian a chyflogaeth I'r rhai sydd ag anghenion penodol, gall cefnogaeth hefyd gynnwys gofal iechyd, gwaith ar berthynas deuluol a rheoli tymer.

Mae'r Parc yn darparu cyrsiau megis Sgiliau Meddwl, Sgiliau Adeiladu ar gyfer Adfer a Phenderfynu - Rhoi sylw i Ymddygiad Treisgar. Gall y cyrsiau perthynas a rheoli ymddygiad fod yn sylfaen i'r cyngor mwy ymarferol ynghylch budd-daliadau, arian a chymorth gyda dyledion.

Cynigir sesiynau cyflogadwyedd hefyd ar gyfer cyngor gydag ysgrifennu curriculum vitae, ceisiadau am swydd a datgelu troseddau.

Mae'r Bwrdd yn fodlon fod cysylltiadau da wedi'u sefydlu yn y Parc gydag asiantaethau cyngor ar gyflogaeth a chwmnïau sy'n cynnig cyfleoedd cyflogi. Mae Gyrfaoedd Cymru yn ymwneud â'r rhaglen ailsefydlu, yn cynnig cyngor a chymorth ynghylch cyfleoedd cyflogaeth.

Mae'r Bwrdd yn falch fod cysylltiadau da wedi'u sefydlu yn y Parc gyda sefydliadau chwaraeon megis Badminton Cymru, Pêl-fasged Cymru, Undeb Rygbi Cymru, Criced Cymru a Chlwb Pêl-droed Dinas Caerdydd, sydd wedi darparu cyrsiau gan roi'r cyfle i gael amryfal gymwysterau mewn hyfforddi.

Mae'r Bwrdd yn falch fod y prosiect Invisible Walls yn parhau i gael ei weld fel model rhagoriaeth sy'n tyfu a'i fod yn cael cydnabyddiaeth yn y byd cyfiawnder, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Mae gwaith y prosiect hwn gyda phlant a theuluoedd yn rhan bwysig o ailsefydlu'n llwyddiannus.

GWAITH Y BWRDD

Mae 2017/18 wedi bod yn flwyddyn heriol i'r Bwrdd yn sgil colli aelodau trwy ddaliadaeth a rhai absenoldebau tymor hir oherwydd iechyd. Mae pedwar aelod newydd wedi ymuno â'r Bwrdd a pharhau mae'r ymdrechion i recriwtio rhagor.

Er gwaethaf hynny, mae'r Bwrdd wedi parhau i weithredu'n dda oherwydd yr ysbryd cryf o dîm sydd wedi datblygu. Mae'r Bwrdd yn parhau'n llwyr ymrwymedig i'w rôl ac yn ymdrechu i fod yn broffesiynol ei agwedd ac yn gynhwysol ei ethos.

Mae holl aelodau'r Bwrdd yn y Parc yn ymgymryd â'u dyletswydd mewn modd sy'n hygyrch i bawb yn y sefydliad. Mae'r Bwrdd yn monitro er mwyn sefydlu bod y profiadau a'r rhyngweithio rhwng staff, carcharorion ac ymwelwyr yn deg a heb ragfarn.

Mae'r Bwrdd wedi'i gwneud yn gwbl ofynnol bod carcharorion yn dilyn y drefn gwyno fewnol cyn gwneud cais i'r Bwrdd.

Wrth drafod ceisiadau gyda charcharorion, mae'r Bwrdd, unwaith eto, wedi dod ar draws achosion niferus lle mae'r carcharor yn honni nad yw'n gwybod pwy yw eu swyddog personol. Gall newid mewn staff a salwch staff greu'r dryswch hwn. Bu hefyd achosion lle mae swyddogion personol wedi ceisio dilyn materion ar ran carcharorion ond wedi methu cael ymatebion. O'r herwydd, mae rhai carcharorion wedi colli hyder yn y system swyddogion personol, ac mae hynny i'w ddeall.

Ymwelodd aelodau o'r Bwrdd â Carchar Ei Mawrhydi Wermwood Scrubs yn Nhachwedd 2017 a chael yr ymweliad yn un diddorol iawn.

YSTADEGAU'R BWRDD	
Nifer Aelodau'r Bwrdd a Argymhellir	22
Nifer aelodau'r Bwrdd ar ddechrau'r cyfnod adrodd	15
Nifer aelodau'r Bwrdd ar ddiwedd y cyfnod adrodd	11
Nifer yr aelodau newydd yn ymuno yn y cyfnod adrodd	4

Nifer yr aelodau'n gadael yn y cyfnod adrodd	6
Cyfanswm nifer cyfarfodydd y Bwrdd yn ystod y cyfnod adrodd	12
Cyfanswm nifer yr ymweliadau â'r Sefydliad	387
Cyfanswm nifer yr adolygiadau neilltuo a gynhelir	267
Cyfanswm nifer yr adolygiadau neilltuo yr aethpwyd iddynt	267
Dyddiad yr Arolwg Blynyddol o Berfformiad y Tîm	21/11/2017

CEISIADAU I'R BWRDD MONITRO ANNIBYNNOL

Côd	Pwnc	2015-16	2016-17	2017-2018
A	Llety	24	11	23
B	Dyfarniadau	7	12	5
C	Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (yn cynnwys crefydd)	16	14	9
D	Addysg/Cyflogaeth/Hyfforddiant yn cynnwys Cymhellion a Breiniau a Haeddir	43	36	49
E 1	Teulu/ymweliadau yn cynnwys llythyrau a ffôn	78	61	40
E 2	Cyllid / Tâl	21	13	15
F	Yn ymwneud â bwyd / y gegin	6	8	4
G	Yn ymwneud ag iechyd	99	98	96
H 1	Eiddo (yn ystod trosglwyddo/mewn sefydliad arall)	41	28	19
H 2	Eiddo (yn y sefydliad cyfredol)	66	72	60
H 3	Ffreutur, Cyfleusterau, Siopa o gatalog, Argos	8	4	1
I	Yn ymwneud â'r ddedfryd (yn cynnwys Cyrffyw Cyfyngu i'r Cartref, Rhyddhau ar Drwydded Dros Dro, parôl, dyddiadau rhyddhau, ailgategoreiddio ac ati)	53	38	34
J	Pryderon Staff/Carcharorion yn cynnwys bwlio	65	66	53
K	Trosglwyddiadau	48	22	21

L	Amrywiol	25	17	21
	Cyfanswm nifer ceisiadau i'r Bwrdd Monitro Annibynnol	600	500	450